

Ffug enw: DEWIN

Blwyddyn 8

Adran A

Ysbryd yr Efeilliaid

Roedd ei waliau garw o frics coch wedi eu gorchuddio â haenau ar haenau o eiddew gwyrdd. Roedd pump ffenest wedi ei leoli ar wyneb y tŷ - rhai wedi'u torri neu wedi eu gorchuddio gan ddarn o bren oedd bellach wedi pydru. Rhwng yr eiddew o bob gwyrdd cyfoethog dan haul, roedd drws a chlo wedi rhydu. Roedd y drws anferth yn ymestyn fry fel cawr, ac roedd fel petai'r porch oddi ben iddo yn ei rwystro rhag dyfu ymhellach. Brasgamais yn agosach i gyffwrdd y clo. Teimlais rhyw dynfa, fel bod maged rhyngof fi a'r drws, fel petai llinyn anweledig yn fy nhynnu yn araf bach i gyfeiriad y drws. Caeais fy llygaid gan obeithio byddai'r llinyn yn llacio. Gwelais law yn gafael yn y clo – a'i fy llaw i oedd hi? Ond pan syllais i lawr, dyna lle roedd fy nwy law i yn eistedd yn daclus wrth fy ochr. Roedd fy meddwl yn troi, llaw pwy oedd yno? Rhaid fy mod wedi dychmygu....

“Mam ti'n siŵr mae hwn ydy'r bwthyn gwyliau?” gweiddais nol ir car.

“Wel, dyma ble mae'r satnaf wedi fy ngyrru, ac roedd arwydd ar waelod y ffordd yn dweud *Bryn Efail*, felly dwi'n eithaf siŵr”

Syllai mam i fyny ar y tŷ cyn dweud

“Falle gei di siom ar yr ochr orau!” meddai â gwen sarcastig.

“Wel, dydy'r drws ddim yn agor!” atebais.

Syllai mam ar y drws.

“Mam, be?!”

Troais rownd i weld y drws yn agor ar ben ei hun, heidiai brain o bob cyfeiriad yn sgrechian ac yn crawcian. Gorchuddiais fy nghlustiau. Syrthiais fel sach o datws ar fy mhengliniau wrth i frain hedfan ar wib ataf.

“Aaaaaaa!” sgrechiai mam.

“Mam! Ti'n iawn?”

“Yndw, diolch cariad” atebai.

“Oes rhaid i ni aros yma? Mae o'n gyrru iasau lawr fy nghefn.....mae bron yn adfail!
Palas i frain di hwn nid llety gwyliau moethus!”

“O Arthur dwi mor sori ond does unman arall i aros ac mae na bump awr o siwrnai nol adre, a hithau 'n dechrau bwrw eira!”

“Dwi ddim yn poeni dwi jyst ishe mynd adre” dwedais gyda dagrau yn fy llygaid.

Dyma Mam yn dod a rhoi cusan ar fy moch cyn rhoi coflaid gynnes i mi. Agorais y drws gan ryw hanner penlinio rhag ofn i fwy o frain ddŵad. Roedd y cyntedd yn llawn gwe pry cop ac ambell lygoden fawr wedi trigo yn y corneli. Cerddais ar flaenau fy nhraed i osgoi y llygod.

“Dwi’n mynd ir gegin i weld os oes ffwrn i goginio swper, wyt ti awydd cael golwg fyny staer?” awgrymodd mam.

“lawn” dwedais a gwen ofnus.

Dechreuais ddringo y staer llychog. Yn sydyn dyma pren y gris dan fy nhroed yn rhoi. Curodd fy nghalon yn gyflym. Edrychais yn ofalus lawr y twll tywyll, di-ddiwedd oedd fel twll du y gofod. Ond roedd sŵn yn dod oddi yno fel gwynt Hydrefol yn chwythu drwy’r coed. Plygais lawr gan ddal ochr y grisiau. Fflachiodd olau glas fyny arnaf – yno roedd pâr o lygaid. Codais yn sydyn, gan syllu'n syn lawr y twll wrth i un pâr o lygaid droi’n ddau, yna’n dri, yn bedwar, yn bump, yn chwech...Llamais dros y twll a rhedeg fel y gwynt i fyny’r grisiau heb edrych nol. Neidiais mewn i’r ystafell cyntaf a chau’r drws yn glep. Roedd gwe pry cop ym mhobman. Roedd y waliau wedi eu gorchuddio a phapur wal blodeuog glas, gwyrdd a phinc oedd wedi colli ei liw. Ar wal gefn yr ystafell roedd ffenest crand. Roedd y waliau ochr wedi eu gorchuddio â silffoedd ar silffoedd o lyfrau-rhai wedi ei bwyta gan bryfaid, eraill wedi ei gorchuddio â gwe pry cop ac eraill yn bendant y tu hwnt i’w darllen. Estynnais am y llyfr agosaf- Chwedl Efeilliaid Bryn Efaill. Roedd ganddo glawr coch plaen ac ysgrifen clwm aur crand yn adrodd

Chwedl Efeilliaid Bryn Efaill

Cychwynnais ddarllen.....

Amser maith yn ôl roedd efeilliaid - Lleu (yr efaill da) a Chadwallon (yr efaill drwg). Roeddynt yn ffrindiau gorau ac yn hoff o wneud drygioni. Ond un diwrnod pan oedd y brodyr yn chwarae yn y goedwig dyma Cadwallon yn cwrdd â gwrach. Roedd y gwrach yn gwerthu poteli o swynion, cynigodd swyn i amddiffyn rhywun rhag farwolaeth neu ddrwg. Er i Lleu rybuddio ei frawd, prynodd Cadwallon y swyn a’i yfed yn yr unfan. Y noson honno adroddodd Lleu yr hanes i’w rieni, nid oeddynt yn hapus i glywed yr hanes gan fod gwrachod yn cael eu cyfrif fel lwc ddrwg yn yr amser yna. Gorchmynnodd ei rieni iddo adael y tŷ ar unwaith cyn iddo ddod a mwy o lwc ddrwg i’r teulu. Torrodd Lleu ei galon i weld ei efaill yn mynd. Y diwrnod nesaf aeth Lleu i chwarae yn y goedwig, daeth ar draws ei efaill yn

dal basged o fara. Rhoddodd Cadwallon y bara i Lleu fel anrheg i ymddiheuro am ei ddrwg. Ni ddwedodd Lleu o ble ddaeth y bara ond y prynhawn hwnnw, bwytaodd y teulu y cyfan. Wythnos yn ddiweddarach, cafodd y teulu eu darganfod yn farw yn y tŷ. Gwyddai neb pwy neu be a laddodd y teulu. Bu farw Cadwallon ugain mlynedd ar ôl yr anffawd, ond mae dal yn fyw fel ysbryd hyd heddiw ac yn dychryn unrhyw un sy'n ymweld â Bryn Efaill.

Yn sydyn atseiniodd sgrech fyddarol ar hyd y tŷ. Sefais yn stond. Sgrech arall. Cynyddodd y sgrechian yn grescendo brawychus. Rhedais i lawr y grisiau a'r sgrechian yn atseinio yn fy nghlustiau. Ble mae Mam?? Beth ddigwyddodd? Sgrialais i'r gegin a'r bwrw'n glatsh trwy ddrws y gegin.

“Mam! Be' sy' 'di digwydd?” gofynnais allan o wynt.

“Dim byd, pam?”

“Ond...ond oeddet ti'n sgrechian”

“Na” Meddai mam yn edrych arnaf yn syn.

“Pwy oedd yn sgrechian te? Nes di glywed, do?”

“Arthur, doedd na neb yn sgrechian” atebodd mam.

Syllais arni â'm llygaid fel dwy soser. Does bosib fy mod i wedi dychmygu hyn! Syllodd Mam arnaf yn hurt cyn dweud

“Bwyta dy swper a cer i gysgu, mae wedi bod yn ddiwrnod hir, wyt ti ishe rhannu gwely efo fi heno?”

Roeddwn i eisiau cysgu gyda Mam, ond doeddwn ddim eisiau edrych fel babi ofnus, felly atebais “Na mae'n iawn, nai gysgu ar fy mhen fy hun. Ond, ble?”

“Dwi'n siŵr fod 'na wely ma, cer a blanced rhag ofn”

“Iawn” dwedais a llond ceg o wyau di potsio.

Treuliais oriau yn gorwedd yn y gwely yn syllu ar y nenfwd. Roedd y gwely bron a thorri ac ychydig yn damp. Ond, troellai lluniau yn fy mhen - y llaw amheus, y llygaid, y sgrechian..... Oedd chwedl Bryn Efaill yn wir?! Penderfynais godi, nid oeddwn yn teimlo fel cysgu o gwbl. Felly dechreuais fusnesa o amgylch yr ystafell. Waliau streipïog coch a gwyn fel pabell syrcau ag un ffenest gul yn ei chanol. Roedd drych ac ymyl aur uwch ben lle tân oer. Roedd y drych wedi cracio yn chwech darn igam-ogam pigog. Edrychais yn ofalus ar y drych gan redeg fy mys rhwng y craciau. Yn annisgwyl, ymddangosodd wyneb yn y drych. Syrthiais am yn ôl gan lanio ar ffrâm y gwely. Syllai llygaid gwag i

grombil fy enaid. Sefais yna'n geg agored, wedi hoelio i'r unfan gan ofn. Roedd y corff ysbrydol lliw glas fel petai wedi ei rewi. Agorodd ceg yr ysbryd. Curodd fy nghalon yn gyflymach. Atseiniai llais dwfn yr ysbryd trwy'r ystafell.....

“Gwylwch ymwelwyr, rhag Cadwallon cas,
Mae'n disgwyl yn dawel, â golwg craff,
Â llygaid oer a sibrwd gwan,
Mae'n nesáu atat gam wrth gam!”

Diflannodd yr wyneb yn raddol nes mai ond y llygaid gwag oedd ar ôl, yn dal i syllu i fyw fy llygaid. Roedd fy stumog yn glymau i gyd wrth imi sywddeddoli fod yr wyneb yn gyfarwydd. Roeddwn wedi gweld yr wyneb yn y llyfr o'r blaen - Llew yr efaill da. Codais ar fy nhraed - fy meddwl yn troi. Brasgamais i gyfeiriad y drws wedi dychryn, cerddais ar hyd y landin i gyfeiriad ystafell mam ond cael fy nal yn syllu ar rimyn o olau glas ar waelod y grisiau. Sefais yn stond wrth i'r golau droi yn gadwyn metel o'r un gwneuthuriad tryloyw ysbrydol â Llew. Yn araf cerddais i lawr y grisiau i gyfeiriad y gadwyn. Tyfodd yn fwy, cyn i gadwyn arall ffurfio a thyfu. Un ar ôl y llall ymddangosai cadwyni o'r twll yn y llawr. Ond dyma'r cadwyn yn peidio, a tu ôl iddo ymddangosodd ffigwr tryloyw tal â barf, a'r un llygaid gwag â Llew.

“Cadwallon” meddais mewn syndod.

“Dyma fi, yn ôl!” meddai â chwerthiniad cas.

Gorchuddiais fy ngheg agored a'm dwylo cyn troi a rhedeg i'r grisiau. Ond bachodd y cadwyni fy mreichiau a choesau gan fy nhynnu nol fel wialen bysgota. Brwydrais yn erbyn eu pŵer, ond methais ddianc. Codais fy mhen – roedd Cadwallon yn syllu arnai'n llawn malais.

“Ha ha ha” gweiddai Cadwallon.

Llenwodd yr ystafell â fflachiadau o olau glas.